

**CYFARFOD:** PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**DYDDIAD:** 14 CHWEFROR 2019

**TEITL:** TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

**PWRPAS:** Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf

**GWEITHREDIAD:** Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion

**SWYDDOG CYSWLLT:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

**AELOD CABINET:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**

Taflen Penderfyniad Cabinet 22/01/2019

Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion (adroddiad Cabinet 22/01/2019)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	22 Ionawr 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Chwefror 2019

---

**PWNC**

Eitem 10:TROSOLWG ARBEDION 2018/19 - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y bo'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---